Siart Cymharu Benthyciadau

Mrs Hast

Annwyl Ddyddiadur,
Dw i eisiau benthyg £300 i dalu am beiriant golchi newydd.

Dw i wedi gweld hysbyseb am fenthyciadau hawdd yn y papur.

Mrs Pwyll

Annwyl Ddyddiadur,
Dw i eisiau benthyg £300 i dalu am garped newydd.

Dw i wedi gweld hysbyseb yn yr **Undeb Credyd**.

Wythnos 1

Dw i wedi benthyg £300 gan gwmni Benthyciad Bob Tro*. Roedden nhw'n gyfeillgar iawn ac maen nhw'n gadael i mi ei dalu'n ôl am £9.01 yr wythnos dros 57 wythnos.	Dw i wedi benthyg £300 gan yr Undeb Credyd. Roedden nhw'n gyfeillgar iawn a dw i eisiau ei dalu'n ôl am £9 yr wythnos am 35 wythnos, ac un wythnos am £4.32.

Wythnos 10

Dydw i ddim yn colli'r £9.01 yr wythnos. Rydw i'n siŵr o'i dalu'n ôl yn iawn.	Dydw i ddim yn colli'r £9.01 yr wythnos. Rydw i'n siŵr o'i dalu'n ôl yn iawn.

Wythnos 28

Rydw i bron hanner ffordd at orffen talu'r benthyciad.	Es i ofyn i'r Undeb Credyd ac medden nhw, dim ond 8 wythnos sydd gen i ar ôl cyn i mi orffen talu'r benthyciad!

Wythnos 37

19 wythnos arall i fynd! Dw i'n gallu fforddio'r taliadau, ond mae'n mynd ymlaen mor hir. Licen i 'sen i wedi gorffen talu!	Fe orffennais i dalu'r benthyciad yn ôl yr wythnos diwethaf. Dw i wedi penderfynu cario 'mlaen i dalu £9 yr wythnos i'r Undeb Credyd er mwyn cynilo 'bach o arian.

Wythnos 56

Dim dyledion o'r diwedd. Ro'n i jyst yn gallu ymdopi â'r £9.01 ond nawr dw i'n meddwl bydd angen i mi fenthyg mwy o arian i brynu carped.	Mae gen i fwy na £170 yn fy nghyfri'! Mae angen peiriant golchi newydd arna i. Efallai y cymera i fenthyciad arall gyda nhw.
Roedden nhw wedi codi 189.2% APR* – Fe gostiodd hynny £213.01 mewn llog i mi (cyfanswm o £513.01). Dim rhyfedd iddo gymryd cymaint o amser i'w dalu'n ôl.	Roedden nhw wedi codi 19.6% APR* – Dim ond £19.32 gostiodd hynny i mi mewn llog (cyfanswm o £319.32). Dim rhyfedd i mi ei dalu'n ôl mor gyflym.

*Enghraifft o gyfraddau llog ym mis Mawrth 2009.
Ni all Undebau Credyd godi mwy na 26.8% y flwyddyn mewn llog ar weddill y benthyciad, neu 2% y mis.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!